Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Llwyngwian Fawr**

**Dyffryn Ardudwy**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

05 Ebrill 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Llwyngwian Fawr

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Achieve together Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 4 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb


Mae'r staff gofal yn deall anghenion llesiant corfforol ac emosiynol y bobl ac yn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar eu cyfer. Mae asesiadau cyn-derbyn yn ystyried cydnawsedd pobl ac yn llywio cynlluniau personol, canllawiau rheoli ymddygiad ac asesiadau risg. Mae'r dogfennau'n cynnwys gwybodaeth fanwl am ddewisiadau personol pobl, strategaethau gofal a chymorth, a chânt eu hadolygu o fewn yr amserlen a nodwyd. Lle bynnag y bo'n bosibl, mae gan y bobl gyfleoedd i fod yn rhan o gyfarfodydd cymunedol a chymryd rhan mewn sesiynau gyda gweithwyr allweddol. Mae ganddynt fynediad at wasanaethau iechyd cymunedol, cânt eu hannog i fod yn annibynnol a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden o'u dewis. Mae'r bobl yn hapus yn byw yn y cartref, yn teimlo'n ddiogel ac yn cael gwrandawiad, ac yn gwybod sut i fynegi pryder. Maent wedi byw gyda'i gilydd ers sawl blwyddyn ac wedi datblygu cyfeillgarwch a dealltwriaeth o hoffterau ei gilydd.

Mae ystafelloedd y bobl yn cynnwys eitemau personol, ac mae gwiriadau iechyd a diogelwch amrywiol yn cael eu cwblhau. Mae'r darparwr yn cwblhau gwiriadau recriwtio diogel, ac mae staff gofal sydd newydd gael eu penodi yn cwblhau hyfforddiant cynefino ffurfiol. Mae gan y staff gofal fynediad at hyfforddiant rheolaidd, ac maent yn siarad yn gadarnhaol am y cymorth a gânt a sut y caiff y cartref ei reoli. Er gwaethaf hyn, mae maes i'w wella wedi'i nodi o ran sicrhau bod staff gofal yn cael goruchwyliaeth ffurfiol reolaidd. Mae unigolyn cyfrifol newydd wedi'i nodi ac wedi ymweld â'r gwasanaeth yn ddiweddar. Er gwaethaf hyn a bod archwiliadau ac adroddiadau monitro ansawdd wedi cael eu cwblhau,

mae amlder a chysondeb ymweliadau'r unigolyn cyfrifol a chwblhau ei adroddiadau wedi'i nodi fel maes i'w wella.

## Llesiant

Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gael rheolaeth dros eu dewisiadau bywyd o ddydd i ddydd a gwrandewir arnynt. Gwelsom staff gofal yn darparu dull gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn defnyddio modelau rôl cadarnhaol wrth gefnogi pobl. Roeddent yn ymatebol i'w hanghenion a'u gofynion, yn rhoi ffiniau cyson iddynt ac yn siarad â nhw mewn modd parchus. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn *"mwynhau"* ac yn *"hoffi"* byw yn y cartref. Gwnaethant gadarnhau eu bod yn cymryd rhan mewn sesiynau gyda gweithwyr allweddol ac y gallant ddewis y math o weithgareddau y maent am eu cwblhau. Mae gan y bobl hefyd fynediad at gynrychiolwyr gwasanaethau comisiynu, aelodau o'r teulu a gwasanaethau eiriolaeth annibynnol a gallant gysylltu â nhw os dymunant.

Mae gan y bobl fynediad at wasanaethau iechyd  amrywiol. Mae'r staff gofal yn annog y bobl i fyw bywyd iach ac yn eu cefnogi i fynychu apwyntiadau gwasanaeth iechyd yn y gymuned. Mae argymhellion a chanlyniadau ymgynghori ynghylch eu llesiant corfforol ac emosiynol o ran iechyd meddwl yn cael eu cofnodi ac yn llywio cynlluniau personol ac asesiadau risg y bobl. Nid yw'r gwasanaeth yn gallu darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ar hyn o bryd.

Mae gan y gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith i sicrhau bod y bobl yn cael eu diogelu rhag niwed. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gwybod â phwy i siarad os oes ganddynt bryderon a dywedasant, *"Rwy'n teimlo'n ddiogel yma"*, *"mae'r staff yn gofalu amdana i"* ac *"mae'r staff yn neis"*. Mae gan y staff gofal fynediad at bolisïau diogelu, chwythu'r chwiban a chwynion y darparwr a dywedasant wrthym eu bod yn deall pwysigrwydd codi pryderon ynglŷn â diogelu. Maent hefyd yn cael mynediad at hyfforddiant diogelu ac mae'r darparwr yn cwblhau gwiriadau recriwtio manylach.

Anogir sgiliau byw'n annibynnol, ac mae'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden yn y gymuned. Maent yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau cartref, cymdeithasol a hamdden megis siopa, gofal anifeiliaid, garddio, coginio ac ymweld â mannau o ddiddordeb personol sy'n cynyddu integreiddio, annibyniaeth a'u hunan-barch. Mae'r gweithgareddau'n rhan o'u trefn arferol ac mae'r staff gofal yn eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau sylfaenol ymhellach.

Mae'r bobl yn byw mewn llety addas, sy'n cefnogi ac yn hybu eu llesiant. Mae eu hystafelloedd wedi'u dodrefnu'n addas, yn cynnwys eitemau personol ac yn darparu man iddynt gael amser preifat. Cânt hefyd gyfleoedd i gymdeithasu a chael mynediad i gyfleusterau yn y cartref sy'n annog eu hannibyniaeth. Mae cynlluniau ar waith i gwblhau atgyweiriadau a nodwyd ac i wella rhannau o'r cartref ymhellach, ac mae gwiriadau iechyd a diogelwch perthnasol yn cael eu cwblhau.

## Gofal a chymorth

Mae proses cyn-derbyn y gwasanaeth yn asesu p’un a yw’n gallu diwallu anghenion pobl a sut y byddai’n gwneud hynny, ac yn llywio cynlluniau personol i'w cefnogi i gyflawni canlyniadau personol. Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn nogfennau cyn-derbyn y darparwr yn ystyried anghenion gofal a chymorth y bobl, eu cydnawsedd a'r effaith bosibl ar eraill sy'n byw yn y cartref. Gwelsom nad oedd asesiadau darparwyr wedi'u cwblhau ond nid oedd hyn yn effeithio ar ofal a chymorth y bobl. Dechreuodd y tîm rheoli gwblhau asesiadau'r darparwr yn ystod yr arolygiad. Mae'r wybodaeth a gynhwysir yng nghynlluniau personol ac asesiadau risg y bobl yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn fanwl ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Dywedodd y staff gofal wrthym fod yr wybodaeth yn cynrychioli anghenion a dewisiadau’r bobl yn gywir ac yn eu galluogi i ddarparu ffiniau cyson i’r bobl sy'n ganolog i'w hanghenion gofal a chymorth a nodwyd. Er bod y staff gofal yn ymwybodol o nodau canlyniadau personol y bobl, roedd yn anodd cymharu'r cynnydd a wnaed oherwydd strwythur y templed cynllun personol. Nid oedd y dogfennau a welwyd yn cynnwys dyddiadau cyflawni nodau neu nid oedd yn amlwg a oeddent yn nodau tymor byr neu dymor hir. Gwnaethom drafod hyn â'r tîm rheoli a'r unigolyn cyfrifol a ddywedodd y byddent yn adolygu templed y ddogfen.

Mae gan y gwasanaeth systemau ar waith i sicrhau bod anghenion y bobl yn cael eu diwallu a bod rhywun yn gwrando arnynt. Mae’r staff gofal yn deall anghenion gofal a chymorth y bobl mewn perthynas â’u cyfathrebu, dewisiadau personol, arferion, rheoli ymddygiad ac iechyd a llesiant. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael eu hannog i rannu eu barn a'u safbwyntiau, a bod y staff gofal yn *"gwrando arnaf"* ac *“rwy’n gallu gwneud pethau rydw i eisiau eu gwneud”*. Mae gwybodaeth ffeiliau gofal yn dangos bod eu hannibyniaeth yn cael ei hannog a'i monitro'n rheolaidd. Gall y bobl gymryd rhan mewn sesiynau gweithiwr allweddol, maent yn gwybod sut i gysylltu â'u gweithiwr cymdeithasol ac fe'u hanogir i fynychu adolygiadau. Nid yw’r bobl yn cyrchu eiriolwr annibynnol ar hyn o bryd gan eu bod yn dewis peidio. Mae gwybodaeth ffeil gofal yn dangos cyfathrebu ac ymgynghori â gwasanaethau comisiynu ac os bernir bod hynny’n briodol, anogir y bobl i gysylltu ag aelodau'r teulu. Mae gweithdrefn gwyno ar waith hefyd y dywedodd y bobl wrthym eu bod yn ymwybodol ohoni.

Mae gan y bobl fynediad at wasanaethau iechyd allanol amrywiol. Mae cofnodion ffeiliau gofal a thrafodaethau gyda phobl a staff gofal yn amlygu, pan fo angen, fod y bobl yn derbyn gofal meddygol a thriniaeth yn brydlon mewn perthynas â'u hanghenion llesiant corfforol ac emosiynol. Mae’r staff gofal yn cefnogi’r bobl i fynychu apwyntiadau ac mae canlyniadau ymgynghori yn cael eu cofnodi'n gywir. Cedwir meddyginiaeth bresgripsiwn yn ddiogel, ac ar y cyfan, roedd y siartiau cofnodion rhoi meddyginiaeth a welwyd yn gywir ac yn cael eu harchwilio bob wythnos gan y tîm rheoli.

Mae gweithdrefnau diogelu a chwythu'r chwiban perthnasol ar waith. Mae gan y staff gofal fynediad at hyfforddiant diogelu ac i bolisïau diogelu a chwythu'r chwiban y darparwr. Cawsom wybod ganddynt eu bod yn deall sut i adrodd materion diogelu ac nad oedd

ganddynt unrhyw bryderon ynghylch sut y darperir gofal a chymorth i'r bobl. Maen nhw'n ystyried bod y bobl yn *"cael eu diogelu"*, yn *"derbyn gofal da"* ac *"yn ddiogel yma"*. Mae'r darparwr yn gwneud atgyfeiriadau diogelu amserol i'r awdurdod lleol ac yn cyflwyno digwyddiadau diogelu hysbysadwy i Arolygiaeth Gofal Cymru pan fo angen.

Nid yw'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar hyn o bryd ac nid yw dogfennau fel y datganiad o ddiben a'r canllaw defnyddiwr gwasanaeth ar gael yn Gymraeg. Dylai'r darparwr gyfeirio at 'Fframwaith strategol olynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol: Mwy Na Geiriau' Llywodraeth Cymru am arweiniad pellach ynglŷn â darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg.

## Yr amgylchedd

Mae’r bobl yn byw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion ac yn eu cefnogi i wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth a chyflawni ymdeimlad o lesiant. Mae'r cartref yn darparu llety ar gyfer hyd at bedwar o bobl â diagnosis o anabledd dysgu a/neu anghenion iechyd meddwl. Mae'r cartref yn dyddyn ar wahân sydd wedi'i leoli ymhlith chwe erw ar ochr bryn. Mae o fewn pellter cerdded / taith fer yn y car o'r pentref lleol lle gall y bobl gael mynediad i siopau. Gall y bobl gael mynediad at weithgareddau cymunedol mewn trefi a dinasoedd mwy trwy gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus neu drwy drefniant trafnidiaeth y cartref ei hun. Gwnaethom gwblhau archwiliad o’r safle a gwelsom y rhan fwyaf o’r ystafelloedd yn y tŷ a’r ardal awyr agored.

Ar ôl cyrraedd, gofynnir i ymwelwyr â’r cartref ddarparu prawf adnabod a llofnodi i mewn yn yr adeilad swyddfa ar wahân sydd ar y safle. Gwelsom y brif lolfa, yr ardal fwyta a’r gegin. Yn gyffredinol, roedd pob ardal i’w gweld yn lân ac yn daclus. Roedd yr ystafelloedd gwely a welwyd wedi’u haddurno a’u dodrefnu’n addas ac yn cynnwys eitemau personol i adlewyrchu hoffterau a diddordebau’r bobl. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod nhw’n *“hoffi”* byw yn y cartref a'u bod yn *"hapus iawn"* gyda'u hystafelloedd. Roedd un unigolyn yn awyddus i ddangos ei ystafell i ni a'r newidiadau arfaethedig. Cadarnhaodd hefyd ei fod wedi bod yn rhan o'r broses benderfynu a'i fod yn *“edrych ymlaen at weld hyn yn cael ei wneud”*.

Mae'r ardal tu allan yn y blaen yn cynnwys digon o lefydd parcio, ac mae'r tir o gwmpas y safle yn cynnwys cyfleusterau ar y safle fel tŷ gwydr a siediau ar gyfer gwaith coed a garddio. Mae nifer o anifeiliaid anwes ac anifeiliaid fferm yn cael eu cadw ar y tir a gall y bobl ddewis i gymryd rhan mewn dyletswyddau gofal anifeiliaid, a chânt eu hannog i wneud. Mae'r cyfleusterau amrywiol ar y safle yn annog y bobl i gwblhau gweithgareddau, tra hefyd yn gwella eu gwybodaeth sylfaen sgiliau a'u sgiliau byw'n annibynnol.

Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch o'r safle eu cwblhau. Mae peryglon amgylcheddol a gwaith cynnal a chadw gofynnol yn cael eu nodi a'u hadrodd. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y darparwr yn gefnogol o newid ac o fuddsoddiad ariannol yn y cartref. Gwelsom fod gwelliannau wedi'u gwneud i ran o waith rendro'r cartref y tu allan ac mae newidiadau sylweddol pellach yn yr arfaeth i'r gegin ac ystafell wely unigolyn. Mae cofnodion ysgrifenedig a thrafodaethau â'r staff gofal yn cadarnhau bod gwiriadau diogelwch tân a gwiriadau mewn perthynas â phrofi offer trydanol yn cael eu cwblhau. Yn ogystal, mae gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth gyfrinachol a sensitif sy’n ymwneud â phobl a staff gofal yn cael ei storio'n ddiogel.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion hylendid ac yn rheoli risgiau o ran heintiau. Mae polisi rheoli heintiau'r darparwr ar gael i'r staff gofal a dywedwyd wrthym eu bod yn fodlon

ar y gweithdrefnau rheoli heintiau presennol sydd ar waith. Gwelsom hefyd fod cyfarpar diogelu personol a chynhyrchion glanhau ar gael iddynt.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu ar waith i gefnogi gweithrediad y gwasanaeth. Mae'r darparwr wedi nodi unigolyn cyfrifol newydd yn ddiweddar ac er bod ganddo systemau llywodraethu ac adrodd ar waith, nid oedd yr unigolyn cyfrifol blaenorol wedi ymweld â'r gwasanaeth yn unol â'r disgwyliad rheoleiddio. Er nad oedd yr unigolyn cyfrifol blaenorol wedi ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd, dywedodd y rheolwr nad oedd hyn wedi effeithio'n negyddol ar y gwasanaeth a ddarperir. Dywedodd y rheolwr wrthym fod ganddo fynediad at yr unigolyn cyfrifol blaenorol a'i fod mewn cysylltiad ag ef, ai' fod mewn *"cyswllt rheolaidd"* â'i reolwr rhanbarthol a oedd yn goruchwylio'r gwasanaeth. Dywedodd wrthym fod y rheolwr rhanbarthol yn parhau i ddarparu *"cymorth ardderchog"* o ran amcanion y gwasanaeth, staffio, cynnydd personol ac ymddygiadol pobl, a buddsoddiad ariannol parhaus y darparwr. Mae'r rheolwr hefyd yn cwblhau archwiliadau gweithredol rheolaidd ac yn datgan ei fod yn *"edrych ymlaen"* at weithio gyda'r unigolyn cyfrifol newydd. Mae trafodaethau gyda'r unigolyn cyfrifol newydd yn ystod yr arolygiad yn amlygu ei fod yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau ac amcanion gweithredol y gwasanaeth.

Caiff y gwasanaeth ei ddarparu yn unol â'i ddatganiad o ddiben, ac mae trefniadau ar waith ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol. Mae'r datganiad o ddiben a ddiweddarwyd yn ddiweddar yn disgrifio'r trefniadau darparu gwasanaeth presennol yn gywir ond nid oedd wedi'i ddiweddaru cyn yr arolygiad i amlygu'r newid mewn unigolyn cyfrifol. O ganlyniad i'r ffaith nad oedd yr unigolyn cyfrifol blaenorol wedi ymweld â'r gwasanaeth yn unol â'r disgwyliad rheoleiddio, nid oedd wedi cwblhau'r adroddiadau tri mis. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff gofal wrthym nad oeddent yn gwybod enw'r unigolyn cyfrifol blaenorol neu gyfredol. Cafodd hyn ei fwydo'n ôl i'r unigolyn cyfrifol presennol a roddodd fanylion ei rôl a manylion cyswllt i bob un o wasanaethau'r darparwr. Ymwelodd yr unigolyn cyfrifol â'r gwasanaeth yn ddiweddar ac mae wedi trefnu dyddiadau ymweliadau pellach i gyflawni ei ddyletswydd rheoleiddiol. Gwelsom hefyd brosesau sicrhau ansawdd ar waith ac mae adolygiad o ansawdd gofal y gwasanaeth bob chwe mis wedi'i gwblhau gyda'r unigolyn cyfrifol presennol yn ei oruchwylio. Er gwaethaf y newid cadarnhaol diweddar, mae amlder a chysondeb ymweliadau'r unigolion cyfrifol a chwblhau eu hadroddiadau wedi'u nodi fel maes i'w wella. Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i fynd i'r afael â hyn a byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

Yn gyffredinol, mae nifer priodol o staff gofal profiadol addas ar gael. Mae rota'r staff yn dangos bod unigolion yn derbyn gofal a chymorth yn unol â'u hanghenion a nodwyd. Roedd hefyd yn dangos bod staff gofal yn cwblhau sifftiau yn ychwanegol at eu horiau gwaith cytundebol. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn hapus i gwblhau sifftiau ychwanegol ac nad oeddent yn teimlo dan bwysau i wneud hynny. Dywedasant wrthym eu bod yn

gwneud hyn oherwydd eu bod yn *“mwynhau gweithio yma”* ac *“mae’n gwneud yn siŵr bod y bobl sy’n byw yma yn cael cymorth cyson”*. Roedd y rota hefyd yn dangos bod staff 'banc' yn cael eu defnyddio pan fo angen i gyflenwi sifftiau ac mae'r rheolwr hefyd wedi cwblhau sifftiau i gynorthwyo'r sefyllfa. Gwelsom fod y darparwr wrthi'n ceisio recriwtio staff gofal newydd. Cwblheir gwiriadau recriwtio staff uwch, ac mae staff gofal newydd eu cyflogi yn cwblhau cyfnod sefydlu mewnol a'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol os nad ydynt wedi gwneud hynny o'r blaen.

Mae’r staff gofal yn derbyn hyfforddiant, ac mae angen gwelliant o ran sicrhau bod goruchwyliaeth ffurfiol yn cael ei darparu a'i chofnodi'n gyson. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cael mynediad at hyfforddiant ar-lein rheolaidd sy'n berthnasol i'w rôl. Roeddent hefyd yn canmol ansawdd yr hyfforddiant. Mae'r cofnod goruchwylio staff yn dangos nad yw'r staff gofal wedi derbyn goruchwyliaeth ffurfiol yn gyson. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cynnal *“trafodaethau dyddiol”* a’u bod yn cael *“cefnogaeth wirioneddol”* gan y tîm rheoli. Dywedasant wrthym hefyd eu bod yn derbyn *“goruchwyliaeth gyson, anffurfiol”* a gwnaethant ganmol lefel ac amlder y cymorth gweithredol a phersonol a ddarperir. Ers dechrau'r flwyddyn, mae'r tîm rheoli wedi bod yn cwblhau ac yn cofnodi goruchwyliaeth ac arfarniadau ffurfiol gyda'r staff gofal. Er gwaethaf y newid cadarnhaol hwn, mae cwblhau a chofnodi goruchwyliaeth staff ffurfiol wedi'i nodi fel maes i'w wella. Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i fynd i'r afael â hyn a byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 36 | Nid yw staff gofal wedi cael goruchwyliaeth un-i-un gyson gyda'u rheolwr llinell neu swyddog cyfatebol, | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | neu aelod uwch o'r staff bob chwarter. Mae angen i'r darparwr sicrhau bod staff gofal yn cael eu goruchwylio'n gyson a bod hyn yn cael ei gofnodi'n ffurfiol. | |
| 73 | Cyn yr arolygiad hwn, nid oedd yr unigolyn cyfrifol blaenorol wedi ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd, bob tri mis. Mae hyn wedi arwain at fethiant i ddangos tystiolaeth bod ymweliadau'n cael eu cofnodi a'u dogfennu. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 14/06/2022